Department for Business & Trade

# Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 - Adolygiad ac ymgynghoriad yn ymwneud â Rhannau 1, 2, 3 a 4

## Ionawr 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn UKIMReview@businessandtrade.gov.uk

I gael gwybodaeth am yr Adran Busnes a Masnach, ewch i: https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-business-and-trade

## Cynnwys

**Rhagair y Gweinidog**

1. **Cefndir marchnad fewnol y DU**
2. **Rheoli marchnad fewnol y DU**
3. **Yr adolygiad**
4. **Ymateb i'r adolygiad hwn a'r camau nesaf**
5. **Crynodeb o'r cwestiynau**

**Atodiad: gofynion statudol yr adolygiad sy'n ymwneud â Rhannau 1, 2 a 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU**

**Rhagair y Gweinidog**

Ers ffurfio'r Deyrnas Unedig, mae marchnad fewnol wedi bod erioed. Mae busnesau a defnyddwyr ar draws y wlad wedi manteisio ers tro byd ar allu gwerthu a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau ym mhob rhan o'r DU. Mae'r fasnach hon rhwng pedair gwlad y DU yn werth tua £129 biliwn, ac mae'n arbennig o bwysig i economïau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Prif flaenoriaeth y llywodraeth hon yw twf economaidd, a chredwn fod twf a ffyniant yn cael ei gefnogi gan ddatganoli – gyda phob lefel o lywodraeth yn gwneud penderfyniadau sy'n cefnogi llwyddiant economaidd ein lleoedd a'n cymunedau.

Felly, mae cynyddu twf economaidd i'r eithaf ar yr un pryd â diogelu gwerth sylweddol y farchnad fewnol yn golygu sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwneud penderfyniadau datganoledig ar reoleiddio a sicrhau nad yw costau a rhwystrau *diangen* i fasnachu rhwng y pedair gwlad yn codi mewn achosion o wahaniaethau rheoleiddiol.

Y ffordd orau o reoli'r farchnad fewnol yw drwy drafodaethau rhwng y pedair gwlad – gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithredu'n gyson lle mae hynny er budd yr holl wledydd a rheoli gwahaniaethau mewn ffyrdd a allai hyrwyddo twf hirdymor, yn hytrach na'i niweidio, ledled y DU. Pan fydd y cydweithio hwnnw'n gweithio'n dda, mae Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ("Deddf Marchnad Fewnol y DU") yn gweithredu yn y cefndir fel adnodd i bob llywodraeth yn y DU reoli achosion o wahaniaethau a allai achosi rhwystrau diangen o ran costau a masnach – gan alluogi gwasanaethau a nwyddau i symud yn rhydd a chefnogi pobl i weithio a chynnal busnes.

Mae llywodraeth newydd y DU yn cydnabod safbwyntiau cryf rhai pobl ynghylch y ffordd y rheolwyd Deddf Marchnad Fewnol y DU yn flaenorol a bod busnesau wedi cael fawr iawn o amser i addasu i bolisïau a newidiadau newydd. Dyna pam rydym ni'n manteisio ar y cyfle i gynnal yr adolygiad hwn yn gynnar. Rydym ni eisiau clywed safbwyntiau am beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim yn gweithio cystal o ran Deddf Marchnad Fewnol y DU, er mwyn i ni allu penderfynu'n gyflym ar y camau nesaf i wneud i brosesau weithio'n well.

Ein nod yw i bedair llywodraeth y DU gydweithio a chyflawni ein huchelgais ar y cyd i gefnogi busnesau a sbarduno twf economaidd. I ddangos yr ymrwymiad hwn yn gynnar, mae llywodraeth y DU eisoes wedi datgan[1]:

- ein hymrwymiad i ddefnyddio Fframweithiau Cyffredin[2] fel prif fforymau er mwyn i bedair llywodraeth y DU drafod a chydweithio ar syniadau a pholisïau newydd yn y meysydd y maent yn ymdrin â nhw, ac i ystyried yr effaith y gallai'r rhain ei chael ar y farchnad fewnol
- ein nod o sicrhau bod y rhaglen i sefydlu Fframweithiau Cyffredin wedi'i chwblhau erbyn Pasg 2025

[1] Datganiadau ysgrifenedig - Cwestiynau ysgrifenedig, atebion a datganiadau - Senedd y DU (Saesneg yn unig)
[2] Gweler paragraffau 10 i 13 am ragor o wybodaeth

- ein hawydd i annog mwy o rannu rhaglenni polisi rhwng llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, fel ein bod yn gweithio gyda'n gilydd mewn ffordd fwy cydweithredol a thryloyw
- ein bod yn cytuno i gynnig blaenorol Llywodraeth yr Alban i eithrio deddfwriaeth sy'n gwahardd gwerthu trapiau glud cnofilod, fel na fyddai mwyach yn ddarostyngedig i ddarpariaethau symud nwyddau yn rhydd yn Neddf Marchnad Fewnol y DU, ar sail y ffaith nad yw'n cael fawr o effaith economaidd ar fusnes.

Mae'r pecyn cychwynnol hwn o ymrwymiadau yn dangos ein bod yn barod i reoli marchnad fewnol y DU mewn ffordd gydweithredol ac agored. Rydym yn falch bod y llywodraethau datganoledig wedi croesawu'r mesurau hyn ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar hyn drwy gydol yr adolygiad.

**Y Gwir Anrhydeddus Douglas Alexander AS**

**Y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach a Diogelwch Economaidd**

## Gwybodaeth Gyffredinol

Manylion yr ymgynghoriad

Cyhoeddwyd: 23 Ionawr 2025

Ymatebion erbyn: 3 Ebrill 2025

Ymholiadau i: UKIMReview@businessandtrade.gov.uk

Cynulleidfa

Mae'r llywodraeth hon yn ceisio barn y rheini y mae darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio arnynt neu sydd â buddiant ynddynt, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- busnesau a'u sefydliadau cynrychioliadol
- grwpiau buddiant arbenigol
- y byd academaidd
- llywodraethau datganoledig.

Rhychwant tiriogaethol

Y Deyrnas Unedig

## Sicrhau ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Gellir datgelu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 2018).

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, rhowch wybod i ni, ond cofiwch na allwn sicrhau cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fyddwn yn trin ymwadiad cyfrinachedd awtomatig wedi'i gynhyrchu gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Gweler ein siarter gwybodaeth bersonol a'n hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus.

## Cefndir marchnad fewnol y DU

Gwerth marchnad fewnol y DU

1. Marchnad fewnol y DU yw'r gofod masnachu sy'n bodoli rhwng pedair gwlad y DU. Mae wedi bodoli ers cannoedd o flynyddoedd. Mae ystadegau wedi dangos yn gyson pa mor bwysig yw masnach ar draws ffiniau mewnol y DU ar gyfer ein twf a'n ffyniant cyffredin, a bod y fasnach hon yn arbennig o bwysig i economïau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn ôl y data, roedd masnach rhwng pedair gwlad y DU yn werth tua £129 biliwn yn 2019. Mae'r data hefyd yn dangos bod masnachu â gwledydd eraill y DU yn cynrychioli 20% neu fwy o gyfanswm economïau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[3]

2. Mae masnach rhwng gwledydd y DU yn bwysig iawn i fusnesau bach, sy'n llai tebygol o fasnachu'n rhyngwladol.[4]

Sut mae marchnad fewnol y DU wedi datblygu

3. Am bron i 50 o flynyddoedd, yn ystod aelodaeth y DU o farchnad sengl yr UE a'i rhagflaenwyr, cynhaliwyd cryn dipyn o fasnach o fewn y DU o dan fframweithiau rheoleiddio wedi'u cysoni ar draws yr UE, a oedd yn atal unrhyw wahaniaeth rheoleiddiol sylweddol ym marchnad fewnol y DU.

4. Roedd llywodraeth Lafur flaenorol y DU bob amser yn hyrwyddo datganoli ac, yn 1998, sicrhawyd datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd hyn yn trosglwyddo'r broses o wneud penderfyniadau mewn set o feysydd polisi i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac roedd y llywodraethau hyn yn eu tro yn atebol i ddeddfwrfeydd datganoledig. Ers hynny, mae mwy o reolaeth wedi cael ei rhoi i awdurdodau datganoledig o dan setliadau datganoli unigol.

5. Pan adawodd y DU yr UE yn 2020, cafodd yr holl bwerau hynny a oedd yn arfer cael eu dal ar lefel yr UE eu dychwelyd i'r DU. Gan fod datganoli wedi digwydd ers i'r DU ymuno â'r UE, dim ond y pwerau hynny nad oeddent wedi'u datganoli (fel ar faterion yn ymwneud â diogelwch a chysylltiadau rhyngwladol) a gafodd eu dychwelwyd i Senedd y DU yn San Steffan, a chafodd y pwerau hynny mewn meysydd polisi a oedd bellach wedi'u datganoli eu dychwelyd i'r seneddau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ôl y setliadau datganoli unigol.

---

[3] Ar gyfer 2019, gweler: Masnach ryngranbarthol mewn nwyddau a gwasanaethau, y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Saesneg yn unig). Mae hyn yn cyfateb i 6% o gyfanswm Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y DU. Rydym yn defnyddio data 2019 oherwydd effaith bosibl pandemig COVID-19 ar ddata 2020. Nid oes modd cymharu'r data ag amcangyfrifon cynharach o 2015 oherwydd gwahaniaethau methodolegol.

[4] Swyddfa'r Farchnad Fewnol: Ymchwil ansoddol gyda busnesau ar fasnach o fewn y DU - GOV.UK (Saesneg yn unig), tudalen 15

6. Roedd hyn yn creu mwy o botensial nag o'r blaen i bob un o'r pedair gwlad fabwysiadu dulliau gweithredu wedi'u teilwra mewn meysydd hanfodol, ac felly i ddulliau rheoleiddio mwy amrywiol ddod i'r amlwg mewn gwahanol rannau o'r DU ac mewn rhannau o farchnad fewnol y DU sy'n arwyddocaol yn economaidd.

7. Mae pwerau datganoledig yn hyrwyddo amgylchedd lle gellir defnyddio dulliau newydd ac arloesol mewn un rhan o'r DU ac, os byddant yn llwyddiannus, gellid mabwysiadau'r rhain a'u cyflwyno yng ngweddill y DU. Er enghraifft, ym mis Hydref 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dâl am fagiau siopa untro a oedd mor llwyddiannus nes iddo gael ei fabwysiadu a'i gyflwyno ledled gweddill y DU. Gyda mwy o bwerau datganoledig ar ôl ymadael â'r UE, mae mwy o botensial ar gyfer y math hwn o arloesi mewn polisi lleol.

8. Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob llywodraeth weithio gyda'i gilydd i reoli'r pwerau newydd hyn yn ofalus er mwyn manteisio i'r eithaf arnynt a lliniaru yn erbyn costau posibl i fusnesau a defnyddwyr. Mae masnachu rhwng gwledydd y DU yn rhan hollbwysig o'n heconomi, ac mae'n hanfodol bod ein marchnad fewnol yn parhau i weithredu'n effeithiol. Mae pobl a busnesau'n teithio, yn cynnal busnes, ac yn prynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau ledled y DU. Mewn rhai amgylchiadau, gallai busnesau ei chael yn fwy cymhleth a chostus gwerthu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau mewn gwledydd eraill yn y DU os bydd rheolau gwahanol yn berthnasol mewn gwahanol leoedd.

9. I helpu i reoli hyn, cyflwynodd llywodraeth flaenorol y DU Fframweithiau Cyffredin ar y cyd â'r llywodraethau datganoledig yn 2017 a Deddf Marchnad Fewnol y DU yn 2020 i ddarparu strwythur i reoli'r cydbwysedd rhwng manteision datganoli ac arloesi ac effaith bosibl costau ychwanegol ar yr economi.

## **Rheoli marchnad fewnol y DU**

### Fframweithiau Cyffredin

10. Mae Fframweithiau Cyffredin yn gytundebau rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Maent yn sefydlu strwythurau ar gyfer ymgysylltu rheolaidd i drafod, gwneud penderfyniadau, a datrys anghydfodau ynghylch datblygiadau mewn meysydd polisi lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Maent yn darparu ffyrdd o weithio mewn meysydd lle mae'n gwneud synnwyr parhau â lefel uchel o gydlynu, er bod pwerau wedi'u datganoli, ac o sicrhau bod unrhyw newidiadau i bolisi yn y meysydd hyn yn cael eu rheoli'n dda ledled y DU.

11. Felly, Fframweithiau Cyffredin yw'r adnodd pwysicaf i lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ddod o hyd i ddulliau gweithredu cyffredin neu gytuno ar sut mae rheoli pan fo un neu fwy o bartïon yn dymuno defnyddio dull gweithredu gwahanol yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Fel hyn, gallant helpu i ddiogelu gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU drwy gefnogi cydlyniant yn y farchnad. Gallant hefyd helpu pob parti i ddeall yn gynnar

ble y gellid defnyddio gwahanol ddulliau gweithredu, fel bod modd i drafodaethau ganolbwyntio ar b'un a yw'r gwahaniaeth hwnnw'n cael effaith economaidd ac, os felly, beth yw'r ffordd orau o reoli'r effaith honno.

12. Sefydlwyd y rhaglen Fframweithiau Cyffredin ar y cyd rhwng llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn 2017. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd polisi, o storio sylweddau ymbelydrol i wastraff bwyd.

13. O fis Ionawr 2025 ymlaen, o'r 32 o Fframweithiau Cyffredin y cytunwyd arnynt rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig,[5] mae 28 yn weithredol ac wedi cael eu clirio'n llawn neu dros dro. Mae llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi ymrwymo'n llwyr i Fframweithiau Cyffredin,[6] ac i gydweithio'n agos i gyflawni eu potensial i helpu i reoli marchnad fewnol y DU.

<u>Deddf Marchnad Fewnol y DU</u>

14. Deddf Marchnad Fewnol y DU yw'r adnodd deddfwriaethol y gellir ei ddefnyddio i helpu i reoli effaith rhwystrau masnach pan fydd gwahaniaethau rheoleiddiol yn digwydd ym marchnad fewnol y DU.

15. Cyflwynodd y Ddeddf egwyddorion (a elwir yn "egwyddorion mynediad i'r farchnad") sy'n golygu'r canlynol:

   a) ystyrir bod cydymffurfio â rheoliadau sy'n caniatáu gwerthu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau mewn un rhan o'r DU yn cydymffurfio â'r gofynion ledled y DU. Hynny yw, mae'r egwyddorion hyn yn golygu mai dim ond un set o reoliadau y mae angen i fusnesau gydymffurfio â nhw er mwyn masnachu'n rhydd ledled y DU

   b) ni all rheoliadau sy'n caniatáu gwerthu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau mewn un rhan o'r DU wahaniaethu yn erbyn nwyddau a gwasanaethau o ran arall o'r DU

   c) lle bo gan unigolion gymwysterau proffesiynol, mae'r Ddeddf yn sicrhau eu bod yn gallu, yn ddiofyn, ymarfer mewn rhannau eraill o'r DU (mae eithriadau a dewisiadau eraill yn berthnasol)

16. O ran nwyddau, os yw gofyniad lleol yn cael ei gyflwyno mewn un rhan neu mewn mwy nag un rhan o'r DU (ond nid ym mhob rhan o'r DU), gallai'r

---

[5] Mae rhestr o Fframweithiau Cyffredin ar gael yma: Fframweithiau Cyffredin y DU - GOV.UK (Saesneg yn unig)

[6] Er enghraifft, nododd Llywodraeth yr Alban ei hymrwymiad i gydweithio â Llywodraeth y DU ar fframweithiau cyffredin a thynnodd sylw atynt fel "model gwirioneddol gadarnhaol" ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol. Gweler llythyr ar Fframweithiau Cyffredin at Mairi Gougeon, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd, 20 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

egwyddorion mynediad i'r farchnad olygu na fydd y gofyniad lleol yn berthnasol i'r nwyddau hynny sy'n cael eu gwneud a'u mewnforio o rannau eraill o'r DU ac na fydd modd gorfodi'r gofyniad hwn yn eu herbyn. O ran gwasanaethau, os bydd gofyniad lleol yn cael ei gyflwyno neu ei ddiwygio'n sylweddol mewn sector sy'n cael ei reoleiddio mewn mwy nag un rhan o'r DU, gallai'r egwyddorion mynediad i'r farchnad fod yn berthnasol ac atal y gofyniad rhag cael ei orfodi yn erbyn darparwyr o rannau eraill.

17. Wrth gwrs, gallai'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ei gwneud yn fwy anodd i reol leol newydd gael yr effaith arfaethedig. Felly, mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i'r egwyddorion gael eu diffodd ar gyfer rheoliadau neu feysydd polisi penodol – gelwir y rhain yn "eithriadau". Gall llywodraeth y DU neu unrhyw un o'r llywodraethau datganoledig gynnig eithriad newydd o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ac, os cytunir ar yr eithriad, mae angen i fusnesau gydymffurfio â'r rheol newydd sydd ar waith yn y wlad berthnasol wrth fasnachu â hi o ran arall o'r DU.

18. Cafodd nifer o feysydd eu heithrio pan ddaeth Deddf Marchnad Fewnol y DU i rym yn wreiddiol (fel gwasanaethau gofal iechyd) ac mae rheoliadau a oedd yn bodoli cyn i'r Ddeddf ddod i rym y tu allan i'w chwmpas hyd nes byddant yn cael eu diwygio'n sylweddol.

**Astudiaeth achos: Plastigion Untro**

Yn 2022, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban waharddiad ar lawer o blastigau untro, gan ei gwneud yn drosedd i fusnesau yn yr Alban ddarparu'r eitemau – sy'n cynnwys cyllyll a ffyrc, platiau a throyddion plastig.

Ar y pryd, roedd uchelgais gyffredin ledled y DU i gael polisi i wahardd plastigau untro. Roedd Llywodraeth yr Alban yn mynd ati'n gyflymach i weithredu hyn na rhannau eraill o'r DU, ac felly roedd ganddi bryder y gallai egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf Marchnad Fewnol y DU olygu bod busnesau mewn rhannau eraill o'r DU yn parhau i werthu eitemau plastig untro i'r Alban, gan danseilio amcanion amgylcheddol eu gwaharddiad, cyn i waharddiadau ddod i rym yng ngweddill y DU.

Oherwydd y pryder hwn, yn dilyn trafodaethau rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghylch eu cynlluniau ar gyfer plastigau untro yn y Fframwaith Cyffredin ar Adnoddau a Gwastraff, cynigiodd Llywodraeth yr Alban eithriad o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer cynhyrchion plastig untro.

Cytunwyd ar yr eithriad hwn ac, yn fuan ar ôl i waharddiad yr Alban ddod i rym, rhoddodd llywodraeth y DU yr eithriad ar waith ar gyfer rhai cynhyrchion plastig untro. Roedd hyn yn golygu *na* fyddai busnesau mewn rhannau eraill o'r DU yn gallu dibynnu ar yr egwyddorion mynediad i'r farchnad i werthu plastigau untro i'r Alban. Y canlyniad oedd bod Llywodraeth yr Alban yn gallu gweithredu ei

gwaharddiad yn effeithiol cyn llywodraethau eraill y DU, heb fawr o effaith niweidiol ddisgwyliedig ar fusnes.

19. Yn ymarferol, os bydd gwahaniaethau ym marchnad fewnol y DU, efallai na fydd busnesau'n ceisio dibynnu ar yr egwyddorion mynediad i'r farchnad. Mae astudiaeth ddiweddar[7] wedi dangos bod busnesau'n tueddu i ymateb i wahaniaethau rheoleiddiol nid drwy ddibynnu ar egwyddorion mynediad i'r farchnad ond naill ai drwy fabwysiadu un safon uchel sy'n cydymffurfio ar draws y pedair gwlad (cydymffurfio drwy fynd yr ail filltir), neu drwy sefydlu dwy gadwyn gyflenwi (gan leihau nifer eu llinellau cynnyrch i reoli costau hyn), neu hyd yn oed drwy ystyried peidio â gwerthu cynhyrchion mewn gwlad benodol. Mae hyn yn dangos y gallai rheoliadau gwahanol sy'n berthnasol mewn gwahanol rannau o'r DU gael effaith sylweddol ar farchnad fewnol y DU, gan gynnwys ar ddewisiadau defnyddwyr a chostau i fusnesau.

20. Canfu'r un astudiaeth honno fod rheoliadau gwahanol sy'n cael effaith yn gynharach yn y gadwyn gyflenwi yn ymddangos yn fwy heriol i fusnesau fynd i'r afael â nhw na rheoliadau gwahanol sy'n cael effaith yn nes ymlaen yn y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn awgrymu, os gall llunwyr polisïau ddefnyddio rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n bwriadu cyflawni nod polisi penodol, gall rhai gwahaniaethau rheoleiddiol gael llai o effaith o lawer ar fusnesau nag eraill, hyd yn oed os yw'r nodau polisi yn eithaf tebyg.

Y broses ar gyfer gwneud eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad

21. Gall pob un o lywodraethau pedair gwlad y DU gynnig eithriad o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad os yw'n dymuno gorfodi ei rheol leol newydd yn erbyn busnesau sy'n masnachu â hi o ran arall o'r DU. Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn nodi mai dim ond llywodraeth y DU all roi eithriad ar waith, drwy ddeddfu yn Senedd y DU.

22. Hyd yma, dim ond un eithriad ychwanegol[8] sydd wedi cael ei roi ar waith ar gyfer nwyddau – er mwyn galluogi llywodraethau i wahardd gwerthu rhai eitemau plastig untro. Mewn perthynas â gwasanaethau, gwnaed nifer o newidiadau i feysydd a oedd wedi'u heithrio yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus[9]. Mae rhagor o fanylion ym mharagraffau 43 i 45.

23. Cafodd proses ar gyfer rheoli eithriadau o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ym meysydd y Fframwaith Cyffredin ei datblygu ar y cyd gan bob llywodraeth a'i

---

[7] Mae'r astudiaethau'n seiliedig ar waith gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol ar waharddiadau ar eitemau plastig untro (SUP), cynlluniau dychwelyd ernes (DRS), cyfyngiadau ar hyrwyddo manwerthu cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr (HFSS), a rheoliadau sy'n ymwneud â defnyddio technegau bridio manwl (PB). Cymerwch gip ar yr Adroddiad blynyddol ar weithrediad marchnad fewnol y DU rhwng 2023 a 2024 - GOV.UK (Saesneg yn unig) am ragor o fanylion.

[8] Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro) 2022 (Saesneg yn unig)

[9] Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau o ran Gwasanaethau) 2023 (Saesneg yn unig)

chyflwyno ym mis Rhagfyr 2021 (gweler y broses ar gyfer ystyried eithriadau Deddf Marchnad Fewnol y DU ym meysydd y Fframwaith Cyffredin (Saesneg yn unig)).

24. Fodd bynnag, mae llywodraeth newydd y DU wedi clywed beirniadaeth am y ffordd y mae'r broses eithriadau wedi gweithredu. Er mwyn dangos awydd y llywodraeth hon i wella sut mae'n gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig er budd busnesau a phobl ledled y DU, mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo i'r canlynol:

    a. gweithredu yn unol â'r egwyddorion ar gyfer Fframweithiau Cyffredin[10] y cytunwyd arnynt yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE) ym mis Hydref 2017 rhwng llywodraeth flaenorol y DU a llywodraethau datganoledig. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys:

        i. datblygu cysylltiadau gweithio agosach a mwy o dryloywder rhwng y llywodraeth a'r llywodraethau datganoledig ar faterion sy'n ymwneud â'r farchnad fewnol yn y DU sy'n effeithio'n sylweddol ar gyfrifoldebau datganoledig o fewn Fframweithiau Cyffredin

        ii. cydnabod manteision arloesi ym maes polisi a dysgu ar y cyd o ran datblygu a gweithredu polisïau, gan alluogi marchnad fewnol y DU i weithredu'n ddidrafferth

    b. anelu at gwblhau'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin yn derfynol erbyn Pasg 2025, gan sicrhau bod y strwythurau angenrheidiol yn bodoli ar gyfer trafodaethau rhynglywodraethol cydgysylltiedig ynghylch gwahaniaethau rheoleiddiol a goblygiadau ar gyfer perfformiad marchnad fewnol y DU

    c. gwneud eithriad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfer deddfwriaeth mewn ymateb i gynnig blaenorol Llywodraeth yr Alban sy'n gwahardd gwerthu trapiau glud cnofilod, fel na fyddent mwyach yn ddarostyngedig i'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y Ddeddf sy'n darparu ar gyfer symud nwyddau yn rhydd.[11] Mae'r llywodraeth hon yn cydnabod bod y cynnig hwn yn cael effaith economaidd fach iawn ar fasnach yn y DU

25. Ar ben hynny, wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae Llywodraeth y DU eisiau deall sut mae gwneud i'r prosesau sy'n darparu'r warchodaeth bwysig sy'n deillio o egwyddorion mynediad i'r farchnad, weithio'n well i fusnesau ar yr un pryd â sicrhau manteision arloesi lleol.

## Yr adolygiad

### Beth mae'r adolygiad yn ei gynnwys

---

[10] Cyd-hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (trafodaethau'r UE): 16 Hydref 2017 (Saesneg yn unig).

[11] Ysgrifennodd Llywodraeth yr Alban at lywodraeth y DU ar 17 Awst 2023 yn gofyn am eithriad ar gyfer gwerthu trapiau glud cnofilod.

26. Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn mynnu bod y llywodraeth yn cynnal adolygiad o agweddau penodol ar Rannau 1, 2 a 4 o'r Ddeddf erbyn mis Rhagfyr 2025. Mae manylion y gofynion cyfreithiol hyn wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r ddogfen hon. Rydym hefyd yn gofyn am farn ar agweddau ychwanegol eraill ar y Ddeddf, fel y broses ar gyfer ystyried eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad, er mwyn helpu i benderfynu sut gellir gwella'r prosesau.

<u>Beth nad yw'r adolygiad yn ei gynnwys</u>

27. Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn darparu gwarchodaeth bwysig a all, pan fo angen, hwyluso darparu gwasanaethau, ymarfer proffesiynau a symud a masnachu'n rhydd mewn nwyddau ledled y DU. Mae hefyd yn cynnwys gwarchodaeth bwysig ar gyfer lle Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol ac undeb tollau'r DU. Felly, ni fydd yr adolygiad hwn yn ystyried a ddylid diddymu Deddf Marchnad Fewnol y DU nac unrhyw ran ohoni.

28. Yn yr un modd, ni fydd yr adolygiad hwn ychwaith yn ystyried y rhannau canlynol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU:

- Rhan 5 – Fframwaith Windsor a Gogledd Iwerddon, gan fod y llywodraeth hon wedi ymrwymo i ddiogelu lle Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU
- Rhan 6 – Pŵer Cymorth Ariannol, gan fod hwn yn parhau i fod yn fecanwaith pwysig sy'n galluogi llywodraeth y DU i gyflawni ar ran pobl ledled y DU ac ar flaenoriaethau a rennir â'r llywodraethau datganoledig
- Rhan 7 – Rheoli cymhorthdal, gan fod hwn yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ar gyfer Senedd y DU
- Rhan 8 - Darpariaethau terfynol

29. Mae gwarchodaeth Deddf Marchnad Fewnol y DU sy'n hwyluso symud nwyddau'n rhydd, darparu gwasanaethau, a chydnabod cymwysterau proffesiynol yn gallu arwain at fanteision ledled y DU. Felly, er ein bod wrth gwrs yn barod i wrando ar yr holl safbwyntiau ar yr egwyddorion mynediad i'r farchnad, ein man cychwyn yw nad ydym yn credu y dylid gwanhau'r warchodaeth sy'n deillio o'r egwyddorion. Yn wir, rydym am sicrhau bod y prosesau sy'n ymwneud â'u rhoi ar waith yn briodol ac yn dryloyw.

<u>Ein dull o gasglu tystiolaeth</u>

30. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am nodweddion Deddf Marchnad Fewnol y DU a'i gweithrediad, ac rydym yn disgwyl i ymatebwyr fod â'r diddordeb mwyaf yn y canlynol: egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol, rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM), a'r broses ar gyfer eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad. Mae pob adran yn cynnwys cwestiynau penodol ar y nodwedd berthnasol. Dylai ymatebwyr deimlo'n rhydd i ateb cynifer neu gyn lleied o'r cwestiynau penodol ag y dymunant. Efallai y bydd ymatebwyr yn penderfynu ateb cwestiwn 20 yn unig, sy'n gwahodd sylwadau cyffredinol ar unrhyw agwedd ar weithrediad Deddf Marchnad Fewnol y DU.

Egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau

31. Os yw busnes yn gwerthu nwyddau ledled y DU, mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn sicrhau ei fod yn gallu parhau i wneud hynny, hyd yn oed os oes rheoliadau gwahanol mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae cydymffurfio â rheoliadau sy'n ymwneud â'u gwerthu yn y rhan o'r DU lle caiff y nwyddau eu cynhyrchu neu lle cânt eu mewnforio iddi, yn golygu y gellir gwerthu'r nwyddau yn rhannau eraill o'r DU, yn rhydd o unrhyw reoliadau a fyddai fel arall yn berthnasol i'w gwerthu yno. Nid yw gofynion rheoleiddio sy'n gwahaniaethu yn erbyn gwerthu nwyddau sydd â chysylltiad perthnasol â rhan arall o'r DU yn cael unrhyw effaith.[12]

32. Ar ôl ei chyflwyno, roedd Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cynnwys atodlen yn nodi'r amgylchiadau penodol pan fydd nwyddau'n cael eu heithrio o gwmpas yr egwyddorion hyn, sy'n golygu bod yn rhaid i fusnesau bob amser ddilyn y ddeddfwriaeth leol o dan yr amgylchiadau hynny. Mae'r eithriadau hyn yn cynnwys:

   a. Bygythiadau i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion
   b. Trethu
   c. Cemegion
   d. Gwrtaith a phlaladdwyr

33. Ers cyflwyno Deddf Marchnad Fewnol y DU, mae rhagor o benderfyniadau wedi cael eu gwneud ynghylch cynigion i eithrio deddfwriaeth sy'n ymwneud â nwyddau penodol o egwyddorion mynediad i'r farchnad y Ddeddf.

34. Yn 2022, cytunodd Llywodraeth y DU i ddarparu eithriad o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer rheoliadau sy'n gwahardd gwerthu rhai cynhyrchion plastig untro (fel cyllyll a ffyrc a phecynnau plastig, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu defnyddio gan gaffis a siopau tecawê, gwellt plastig a chwpanau coffi untro). Daeth y diwygiad hwn i'r rhestr o eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau i rym ym mis Awst 2022.

35. Mae'r llywodraeth o'r farn bod hon yn enghraifft dda o'r llywodraethau datganoledig a llywodraeth y DU yn cydweithio, gan barchu cymhwysedd datganoledig a'r gallu i gyflwyno deddfwriaeth leol ar yr un pryd â lleihau unrhyw effaith niweidiol bosibl ar fasnach. Mae hefyd yn enghraifft o ddatblygu rheoliadau

[12] Rhaid i nwyddau sy'n symud i Ogledd Iwerddon ddilyn rheolau penodol yr UE. Mae'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn cael eu haddasu er mwyn peidio â bod yn berthnasol yn yr achosion hyn. Gellir gwerthu nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon ym Mhrydain Fawr gan ddibynnu ar egwyddorion mynediad i'r farchnad.

a fydd yn cael effaith yn nes ymlaen yn y gadwyn gyflenwi, a allai fod wedi cyfrannu at lai o effaith ar fusnesau.[13]

36. Ar hyn o bryd mae'r OIM yn cynnal astudiaeth i effaith cyfyngiadau rheoleiddio presennol a chyfyngiadau rheoleiddio yn y dyfodol ar gynhyrchion plastig untro. Disgwylir y canlyniadau cyn bo hir a byddant yn sail i'r adolygiad hwn.

37. Yn 2023, cytunodd Llywodraeth y DU i gynnig eithriad dros dro i Lywodraeth yr Alban weithredu cynllun dychwelyd ernes (DRS) ar gyfer cynwysyddion diodydd, cyn cyflwyno cynlluniau DRS ar gyfer cynwysyddion metel a phlastig ledled gweddill y DU. Mae DRS yn system ar gyfer codi ernes ar y defnyddiwr mewn perthynas â chynhwysydd sy'n cael ei ad-dalu pan fydd y defnyddiwr yn dychwelyd y cynhwysydd, er enghraifft drwy beiriant gwerthu gwrthdro.

38. Fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth flaenorol y DU beidio â chytuno y dylai'r eithriad DRS a gynigir gan Lywodraeth yr Alban hefyd gynnwys poteli gwydr (y tu hwnt i gynwysyddion plastig a metel yn unig). Y rheswm am hyn oedd y byddai cynllun sy'n cynnwys gwydr wedi creu lefel o wahaniaeth rhwng y cynlluniau DRS arfaethedig yn y DU, heb y mesurau diogelu y mae cynlluniau rhyngweithredol yn eu darparu, a fyddai wedi bod yn gam sylweddol iawn i fusnesau a defnyddwyr. Roedd y llywodraeth flaenorol o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau dull o'r fath.

39. Yn 2024, penderfynodd Llywodraeth flaenorol y DU beidio â chytuno ar eithriad a gynigiwyd gan Lywodraeth yr Alban mewn perthynas â gwerthu trapiau glud cnofilod, ar y sail ei fod yn ddiangen oherwydd bod defnyddio a meddu ar drapiau glud cnofilod (y tu hwnt i reolwyr plâu trwyddedig) eisoes wedi'i wahardd.

40. Mae'r llywodraeth hon wedi datgan yn awr y bydd yn cytuno i'r eithriad ar werthu trapiau glud cnofilod. Y rhesymeg yw mai bach iawn fyddai effaith economaidd yr eithriad.

---

[13] Adroddiad blynyddol ar weithrediad marchnad fewnol y DU rhwng 2023 a 2024 - GOV.UK (Saesneg yn unig)

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn chi am y ffordd orau o gefnogi marchnad fewnol y DU ar gyfer nwyddau gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn chi ynghylch a yw'r gwahanol reoliadau sy'n cael effaith yn ddiweddarach yn y broses gyflenwi yn symlach i fusnesau fynd i'r afael â nhw?**

**Cwestiwn 3: Beth yw'r cydbwysedd cywir rhwng y potensial ar gyfer arloesi rheoleiddiol lleol mewn sectorau ac ym mhob cwr o'r DU?**

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am weithrediad yr egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau hyd yma?**

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn am y defnydd a wnaed o'r pwerau diwygio Rhan 1 – er enghraifft yr eithriad ar gyfer plastigau untro? Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a yw'r newidiadau wedi cael neu a fyddant yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ac a ydynt wedi bod yn effeithiol.** (Mae esboniad o beth yw pwerau diwygio Rhan 1 a pha ddefnydd a wnaed ohonynt ar gael yn yr Atodiad)

Egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer gwasanaethau

41. Os yw busnes wedi'i awdurdodi i ddarparu gwasanaethau yn un rhan o'r DU, mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn sicrhau ei fod yn gallu darparu'r gwasanaethau ledled y DU, hyd yn oed os oes rheoliadau gwahanol mewn gwahanol rannau o'r DU. Nid yw gofynion sy'n gwahaniaethu yn cael unrhyw effaith mewn perthynas â darparwr gwasanaeth o ran arall o'r DU.

42. Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cynnwys rhestr o wasanaethau sydd wedi'u heithrio o gwmpas yr egwyddorion hyn. Ar gyfer y sectorau gwasanaeth hyn sydd wedi'u heithrio, gall rheoleiddwyr datganoledig osod gofynion gwahanol yn eu hawdurdodaethau heb roi mynediad awtomatig i ddarparwyr gwasanaeth o rannau eraill o'r DU.

43. Roedd atodlen sy'n rhestru pa wasanaethau sydd wedi'u heithrio wedi'i nodi yn Neddf Marchnad Fewnol y DU pan gafodd ei deddfu. Datblygwyd y rhestr ymhellach, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2021, drwy offeryn statudol[14] a wnaed ym mis Tachwedd 2023. O ganlyniad, mae'r sectorau canlynol bellach wedi'u heithrio:

    a. Gwasanaethau clyweledol

[14] Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau o ran Gwasanaethau) 2023 (Saesneg yn unig)

b. Gwasanaethau casglu dyledion
c. Gwasanaethau gamblo
d. Gwasanaethau gofal iechyd
e. Gwasanaethau cyfreithiol (cydnabyddiaeth gilyddol yn unig)
f. Gwasanaethau notarïol
g. Gwasanaethau diogelwch preifat
h. Rhwydweithiau gwres (cydnabyddiaeth gilyddol yn unig)
i. Gwasanaethau nwy a thrydan
j. Gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth
k. Gwasanaethau trafnidiaeth
l. Swyddogaethau o natur gyhoeddus
m. Dyfarnu neu ddilysu gwasanaethau cymwysterau academaidd neu alwedigaethol
n. Gwasanaethau cymdeithasol (sy'n ymwneud â thai cymdeithasol, gofal plant, gofal cymdeithasol i oedolion a chefnogaeth i deuluoedd a phobl sydd mewn angen yn barhaol neu dros dro)
o. Gwasanaethau gwastraff
p. Trethu

44. Mae'r gwasanaethau canlynol bellach *wedi'u cynnwys* yn y warchodaeth a ddarperir gan yr egwyddorion mynediad i'r farchnad, ar ôl cael eu heithrio i ddechrau pan ddaeth Deddf Marchnad Fewnol y DU i rym:

a. Gwasanaethau cyfathrebu electronig
b. Gwasanaethau ariannol
c. Gwasanaethau post
d. Gwasanaethau asiantaethau gwaith dros dro
e. Gwasanaethau archwilwyr statudol

45. Ers hynny, ni fu unrhyw gynigion ar gyfer rhagor o eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad sy'n ymwneud â gwasanaethau.

**Cwestiwn 6: Beth yw eich barn chi am y ffordd orau o gefnogi marchnad fewnol y DU ar gyfer gwasanaethau gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 7: Beth yw'r cydbwysedd cywir rhwng y potensial ar gyfer arloesi rheoleiddiol lleol mewn gwasanaethau ac ym mhob cwr o'r DU?**

**Cwestiwn 8: Beth yw eich barn chi am weithrediad yr egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer gwasanaethau hyd yma?**

**Cwestiwn 9: Beth yw eich barn chi am y defnydd a wnaed o'r pwerau diwygio Rhan 2 – er enghraifft dileu eithriadau ar gyfer rhai gwasanaethau? Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a yw'r newidiadau wedi cael neu a fyddant yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ac a ydynt wedi bod yn effeithiol.** (Mae esboniad o beth yw pwerau diwygio Rhan 2 a pha ddefnydd a wnaed ohonynt ar gael yn yr Atodiad)

Cydnabod cymwysterau proffesiynol

46. Mae Rhan 3 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn darparu gwarchodaeth debyg ar gyfer cymwysterau proffesiynol i'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau a gwasanaethau: os yw person yn cymhwyso mewn un rhan o'r DU, mae'r cymwysterau proffesiynol hynny'n cael eu cydnabod yn awtomatig ym mhob rhan arall o'r DU – heb fod angen sefyll arholiadau ychwanegol, er enghraifft. Nid yw cydnabyddiaeth awtomatig yn berthnasol os oes proses arall ar gyfer sicrhau cydnabyddiaeth sy'n cydymffurfio ag egwyddorion penodol. Sicrheir triniaeth gyfartal fel na ellir gofyn i weithwyr proffesiynol gydymffurfio â gofynion ymarfer parhaus sy'n uwch na gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso'n lleol oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

47. Dim ond i broffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio gan y gyfraith y mae'r Ddeddf yn berthnasol. Cafodd rhai proffesiynau, fel addysg a gwasanaethau cyfreithiol, eu heithrio o'r system hon pan ddaeth Deddf Marchnad Fewnol y DU i rym. Hyd yma, ni fu unrhyw eithriadau pellach o'r system cydnabod cymwysterau proffesiynol.

**Cwestiwn 10: Beth yw eich barn chi am y ffordd orau o gefnogi marchnad fewnol y DU ar gyfer proffesiynau gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 11: Beth yw'r cydbwysedd cywir rhwng y potensial ar gyfer arloesi rheoleiddiol lleol mewn proffesiynau ac ym mhob cwr o'r DU?**

**Cwestiwn 12: Beth yw eich barn chi am weithrediad y system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol hyd yma?**

<u>Cyngor annibynnol ar farchnad fewnol y DU a'r gwaith o'i monitro a rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol</u>

48. Mae Rhan 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn nodi'r trefniadau ar gyfer rhoi cyngor annibynnol ar farchnad fewnol y DU a'i monitro. Mae hyn yn golygu rhoi amrywiaeth o swyddogaethau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) y mae'n eu cyflawni drwy'r OIM. Amcan yr OIM yw cefnogi ac adrodd ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU, gan wneud asesiadau a rhoi cyngor arbenigol ac annibynnol i lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ar sut mae deddfwriaeth, rheolau a rheoliadau penodol yn effeithio ar farchnad fewnol y DU.

49. Mae'r OIM yn gorff annibynnol sy'n cael ei oruchwylio gan Gadeirydd (Murdoch MacLennan) a phanel o 7 aelod a benodwyd. Mae gan yr OIM staff penodol yn y CMA, yn ogystal â mynediad at broffesiynau cynghori'r CMA, fel economegwyr, dadansoddwyr cyfreithiol, busnes ac ariannol. Gall yr OIM ffurfio grwpiau gorchwyl sy'n cynnwys aelodau o banel OIM i gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd i'r CMA o dan Ran 4, fel rhoi cyngor ar fater penodol. Mae crynodeb o swyddogaethau'r CMA o dan Ran 4 ar gael yn yr Atodiad.

50. O'r adeg y dechreuodd weithredu ym mis Medi 2021, mae'r OIM wedi dod yn gorff annibynnol ac arbenigol uchel ei barch yn y DU. Mae'r OIM wedi cynhyrchu dau adroddiad blynyddol ar gyflwr marchnad fewnol y DU a bydd yn cyhoeddi ei thrydydd adroddiad ddechrau 2025. Mae wedi cyhoeddi adroddiad cyfnodol yn 2024 sy'n asesu effeithiolrwydd Rhannau 1 i 3 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ac wedi cynnal gwaith ymchwil manwl ar faterion sy'n ymwneud â marchnad fewnol y DU, yn enwedig rheoliadau sy'n ymwneud â phlastig untro a gwerthu mawn garddwriaethol. Mae hefyd wedi gwneud gwaith strategaeth data i eirioli dros ddata o ansawdd gwell ar fasnach yn y DU (cyhoeddwyd y Map Strategaeth Data yn 2023 a'i ddiweddaru ym mis Mai 2024). Mae gan yr OIM hefyd swyddogaeth adrodd lle gall unrhyw un roi gwybod am anhawster yn ymwneud â masnach ym marchnad fewnol y DU. Mae rhagor o wybodaeth am yr OIM a'i gwaith (gan gynnwys ei hadroddiadau cyhoeddedig) ar gael ar ei gwefan.

**Cwestiwn 13: Sut gall Swyddfa'r Farchnad Fewnol gefnogi marchnad fewnol y DU orau drwy ei rôl yn monitro ac yn rhoi cyngor annibynnol?**

**Cwestiwn 14: Beth yw eich barn chi ynghylch a yw'r trefniadau presennol yn Rhan 4 sy'n ymwneud â defnyddio grwpiau gorchwyl Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn briodol ar gyfer sicrhau bod swyddogaethau Rhan 4 y CMA yn cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon? Byddem yn croesawu barn yn benodol ar unrhyw fanteision neu anfanteision parhau â'r trefniadau presennol o'u cymharu â ffyrdd eraill posibl o gyflawni swyddogaethau Rhan 4.** (Ceir rhestr lawn o'r swyddogaethau yn yr Atodiad)

<u>Cwestiynau ar reoli marchnad fewnol y DU a gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y DU</u>

51. Gan ein bod wedi clywed beirniadaeth am y ffordd y mae'r broses eithriadau wedi cael ei rheoli yn y gorffennol, ac felly'r amgylchiadau lle'r oedd yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yn berthnasol, rydym yn awyddus i ddeall sut gellir gwella'r prosesau hyn er budd pobl a busnesau ledled y DU. Felly, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed barn pobl mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol.

**Cwestiwn 15: Pa welliannau y gellid eu cyflwyno i hwyluso rheolaeth fwy pragmatig o broses eithriadau Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 16: Sut dylem sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n gymesur â phartïon sydd â buddiant mewn perthynas ag eithriadau posibl?**

**Cwestiwn 17: Pa dystiolaeth ddylai llywodraeth ei darparu i gefnogi eithriad a gynigir ganddi, er mwyn gallu ystyried y cynnig yn llawn (er enghraifft, gwybodaeth am effeithiau posibl ar allu busnesau i fasnachu yn y DU a goblygiadau peidio â chael eithriad o ran polisi)?**

**Cwestiwn 18: A ddylid cael proses wahanol i ystyried eithriadau a gynigir a allai arwain at effaith economaidd sylweddol bosibl, o gymharu â'r rheini sy'n debygol o arwain at effaith economaidd lai?**

**Cwestiwn 19: Yn eich barn chi, beth yw effaith economaidd sylweddol bosibl?**

**Cwestiwn 20: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am weithrediad Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Ymateb i'r adolygiad hwn a'r camau nesaf**

52. Mae'r rhestr lawn o gwestiynau ar gael yn y ddogfen hon. Anfonwch eich safbwyntiau, a manylion y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli wrth gyflwyno'r safbwyntiau hyn, at UKIMReview@businessandtrade.gov.uk. Dylid anfon copïau caled at: UK Internal Market Review, c/o Old Admiralty Building, Admiralty Place, London SW1A 2DY. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 3 Ebrill 2025.

53. Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd llywodraeth y DU yn ystyried yr holl ymatebion a ddaeth i law.

54. Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, bydd llywodraeth y DU yn rhannu adroddiad drafft ar y materion y mae'n ofynnol iddi eu hadolygu o dan Ran 4 gyda llywodraethau datganoledig.

55. Ar ôl i'r adolygiad ddod i ben, bydd llywodraeth y DU yn cyhoeddi adroddiad terfynol, yn ymdrin â phob mater, a fydd yn cael ei gyflwyno gerbron Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

<u>**Crynodeb o’r cwestiynau**</u>

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn chi am y ffordd orau o gefnogi marchnad fewnol y DU ar gyfer nwyddau gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn chi ynghylch a yw’r gwahanol reoliadau sy’n cael effaith yn ddiweddarach yn y broses gyflenwi yn symlach i fusnesau fynd i’r afael â nhw?**

**Cwestiwn 3: Beth yw’r cydbwysedd cywir rhwng y potensial ar gyfer arloesi rheoleiddiol lleol mewn sectorau ac ym mhob cwr o’r DU?**

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn chi am weithrediad yr egwyddorion mynediad i’r farchnad ar gyfer nwyddau hyd yma?**

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn chi am y defnydd a wnaed o’r pwerau diwygio Rhan 1 – er enghraifft yr eithriad ar gyfer plastigau untro? Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a yw’r newidiadau wedi cael neu a fyddant yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ac a ydynt wedi bod yn effeithiol.** (Mae esboniad o beth yw pwerau diwygio Rhan 1 a pha ddefnydd a wnaed ohonynt ar gael yn yr Atodiad).

**Cwestiwn 6: Beth yw eich barn chi am y ffordd orau o gefnogi marchnad fewnol y DU ar gyfer gwasanaethau gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 7: Beth yw’r cydbwysedd cywir rhwng y potensial ar gyfer arloesi rheoleiddiol lleol mewn gwasanaethau ac ym mhob cwr o’r DU?**

**Cwestiwn 8: Beth yw eich barn chi am weithrediad yr egwyddorion mynediad i’r farchnad ar gyfer gwasanaethau hyd yma?**

**Cwestiwn 9: Beth yw eich barn chi am y defnydd a wnaed o’r pwerau diwygio Rhan 2 – er enghraifft dileu eithriadau ar gyfer rhai gwasanaethau? Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a yw’r newidiadau wedi cael neu a fyddant yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ac a ydynt wedi bod yn effeithiol.** (Mae esboniad o beth yw pwerau diwygio Rhan 2 a pha ddefnydd a wnaed ohonynt ar gael yn yr Atodiad).

**Cwestiwn 10: Beth yw eich barn chi am y ffordd orau o gefnogi marchnad fewnol y DU ar gyfer proffesiynau gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 11: Beth yw’r cydbwysedd cywir rhwng y potensial ar gyfer arloesi rheoleiddiol lleol mewn proffesiynau ac ym mhob cwr o’r DU?**

**Cwestiwn 12: Beth yw eich barn chi am weithrediad y system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol hyd yma?**

**Cwestiwn 13: Sut gall Swyddfa’r Farchnad Fewnol gefnogi marchnad fewnol y DU orau drwy ei rôl yn monitro ac yn rhoi cyngor annibynnol?**

**Cwestiwn 14: Beth yw eich barn chi ynghylch a yw'r trefniadau presennol yn Rhan 4 sy'n ymwneud â defnyddio grwpiau gorchwyl Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn briodol ar gyfer sicrhau bod swyddogaethau Rhan 4 y CMA yn cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon? Byddem yn croesawu barn yn benodol ar unrhyw fanteision neu anfanteision parhau â'r trefniadau presennol o'u cymharu â ffyrdd eraill posibl o gyflawni swyddogaethau Rhan 4.** (Ceir rhestr lawn o'r swyddogaethau yn yr Atodiad).

**Cwestiwn 15: Pa welliannau y gellid eu cyflwyno i hwyluso rheolaeth fwy pragmatig o broses eithriadau Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

**Cwestiwn 16: Sut dylem sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n gymesur â phartïon sydd â buddiant mewn perthynas ag eithriadau posibl?**

**Cwestiwn 17: Pa dystiolaeth ddylai llywodraeth ei darparu i gefnogi eithriad a gynigir ganddi, er mwyn gallu ystyried y cynnig yn llawn (er enghraifft, gwybodaeth am effeithiau posibl ar allu busnesau i fasnachu yn y DU a goblygiadau peidio â chael eithriad o ran polisi)?**

**Cwestiwn 18: A ddylid cael proses wahanol i ystyried eithriadau a gynigir a allai arwain at effaith economaidd sylweddol bosibl, o gymharu â'r rheini sy'n debygol o arwain at effaith economaidd lai?**

**Cwestiwn 19: Yn eich barn chi, beth yw effaith economaidd sylweddol bosibl?**

**Cwestiwn 20: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am weithrediad Deddf Marchnad Fewnol y DU?**

## Atodiad: gofynion statudol yr adolygiad sy'n ymwneud â Rhannau 1, 2 a 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU

Yr hyn y mae'n rhaid i'r adolygiad ei ystyried

Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal adolygiad o rai agweddau ar Rannau 1, 2 a 4 o'r Ddeddf erbyn dyddiadau penodol. Amlinellir cynnwys yr adolygiad hwnnw yn yr atodiad hwn. Fodd bynnag, yn gryno iawn:

- mae'r adolygiadau o Rannau 1 a 2 yn ymwneud â'r defnydd a wnaed o bwerau penodol a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan y Ddeddf

- mae adolygiad Rhan 4 yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y Rhan honno

- mae'r darpariaethau adolygu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â gweinidogion Cymru, gweinidogion yr Alban ac un o adrannau Gogledd Iwerddon, a bwriedir i'r ymgynghoriad hwn fodloni'r gofyniad hwnnw. Nid oes gofyniad i ymgynghori y tu hwnt i'r llywodraethau datganoledig wrth gynnal yr adolygiad hwn, ond rydym wedi dewis gwneud hynny gan ein bod eisiau clywed gan yr holl randdeiliaid sydd â buddiant yn narpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU neu y mae'r darpariaethau hynny'n effeithio arnynt.

Yn dilyn yr adolygiadau hyn, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi adroddiad ar yr adolygiad i'w gyflwyno gerbron y Senedd. Mae gofyniad ychwanegol i rannu adroddiad drafft sy'n ymwneud ag adolygiad Rhan 4 gyda'r cyrff y sonnir amdanynt uchod cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau'n derfynol.

Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn nodi'r cyfnodau amser canlynol ar gyfer cynnal yr adolygiad, paratoi adroddiad a chyflwyno'r adroddiad gerbron y seneddau perthnasol:

- **Rhan 1 (Nwyddau)** – erbyn 17 Rhagfyr 2025
- **Rhan 2 (Gwasanaethau)** – erbyn 17 Rhagfyr 2025
- **Rhan 4 (Trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r CMA)** – erbyn 31 Rhagfyr 2025.

Y gofynion adrodd

Mae'r gofynion i baratoi adroddiad fel rhan o'r prosesau adolygu yn amrywio rhwng Rhannau 1 a 2 a Rhan 4.

Dim ond pan fo'r pwerau perthnasol wedi'u defnyddio ers dod i rym y mae'n ofynnol paratoi adroddiad sylweddol ar gyfer Rhannau 1 a 2. Lle nad yw'r pwerau wedi cael eu defnyddio, mae angen adroddiad o hyd, ond dim ond i nodi nad yw'r pwerau wedi cael eu defnyddio eto.

Rhaid i'r adroddiad ar yr adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â Rhannau 1 a 2 gael ei gyflwyno gerbron Senedd y DU.

Ar gyfer adolygiad Rhan 4 yn unig, cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau'n derfynol, rhaid rhannu drafft o'r adroddiad â'r llywodraethau datganoledig, gan wahodd pobl i wneud sylwadau. Rhaid cyflwyno'r adroddiad terfynol gerbron Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

<u>Adolygiad Rhan 1: gofynion statudol</u>

Rhaid i'r adolygiad sy'n ymwneud â Rhan 1 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU gwmpasu unrhyw ddefnydd a wnaed o'r pwerau diwygio Rhan 1 – sy'n golygu defnyddio'r pwerau i wneud y canlynol:

- ychwanegu, amrywio neu ddileu darpariaethau sy'n ymwneud â pha fath o ddarpariaeth statudol sy'n rhan o gwmpas yr egwyddor peidio â gwahaniaethu
- ychwanegu, amrywio neu ddileu "nod dilys", sy'n berthnasol wrth benderfynu a oes gwahaniaethu anuniongyrchol
- diwygio Atodlen 1 sy'n rhestru eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau

Adeg cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, ers i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ddod i rym, ni fu unrhyw ddefnydd o'r pwerau i ychwanegu, amrywio na dileu darpariaethau sy'n ymwneud â pha fath o ddarpariaeth statudol sy'n rhan o gwmpas yr egwyddor peidio â gwahaniaethu. Ni fu unrhyw ddefnydd ychwaith o'r pŵer i ychwanegu, amrywio na dileu nod dilys mewn perthynas â gwahaniaethu anuniongyrchol. Fodd bynnag, mae un defnydd wedi'i wneud o'r pŵer i ddiwygio'r rhestr o eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Atodlen 1. Roedd hyn mewn ymateb i gynnig Llywodraeth yr Alban i eithrio eitemau plastig untro.

Mae'r darpariaethau'n mynnu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth gwblhau'r adolygiad, asesu effaith ac effeithiolrwydd unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud o dan bwerau diwygio Rhan 1 a bod yn rhaid iddo ystyried unrhyw adroddiadau neu gyngor perthnasol sydd wedi cael eu rhoi gan y CMA.

*Plastigion Untro*

*Mater:* Ym mis Tachwedd 2021, cynigiodd Llywodraeth yr Alban eithriad o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer rhai eitemau plastig untro (SUP). Hwn oedd yr eithriad cyntaf i gael ei gynnig ar ôl cyflwyno Deddf Marchnad Fewnol y DU.

*Triniaeth:* Roedd uchelgais polisi gyffredin ledled y DU i wahardd plastigau untro. Roedd yr Alban yn mynd ati'n gyflymach i weithredu hyn na rhannau eraill o'r DU, ac roedd gwahaniaethau o ran pa eitemau plastig untro fyddai'n cael eu gwahardd gan wahanol lywodraethau. Cafwyd trafodaethau cadarnhaol rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig drwy'r Fframwaith Cyffredin ar Adnoddau a Gwastraff, a oedd yn helpu i gasglu tystiolaeth ac yn dangos pa mor ddefnyddiol oedd y drafodaeth o dan Fframweithiau Cyffredin.

*Canlyniad a myfyrdodau:* Rhoddodd llywodraeth y DU eithriad ar waith gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Marchnad Fewnol y DU,[15] a oedd yn golygu bod Llywodraeth yr Alban yn gallu gweithredu'r polisi yr oeddent yn ei ddymuno, heb fawr o effaith niweidiol ar fusnes. Mae hyn hefyd wedi bod yn wir o ran gweithredu gwaharddiadau ar wahanol gynhyrchion plastig untro yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau ar wahardd a chyfyngu ar blastig untro (Saesneg yn unig).

Adolygiad Rhan 2: gofynion statudol

Rhaid i'r adolygiad o Ran 2 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU gwmpasu unrhyw ddefnydd a wnaed o bwerau diwygio Rhan 2. Dyma'r pwerau i:

- ychwanegu, amrywio neu ddileu cofnodion yn Atodlen 2, sy'n disgrifio'r mathau o wasanaethau sydd wedi'u heithrio o ddarpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU; ac
- ychwanegu, amrywio neu ddileu "nod dilys", sy'n berthnasol wrth benderfynu a oes gwahaniaethu anuniongyrchol.

Adeg cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, ers i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ddod i rym, ni fu unrhyw ddefnydd o'r pŵer i ychwanegu, amrywio na dileu nod dilys mewn perthynas â gwahaniaethu anuniongyrchol.

Fodd bynnag, defnyddiwyd y pŵer i ychwanegu, amrywio neu ddileu cofnodion yn Atodlen 2 i wneud newidiadau i'r Atodlen yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar eithriadau ar gyfer gwasanaethau.

Mae'r darpariaethau'n mynnu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth gynnal yr adolygiad, asesu effaith ac effeithiolrwydd unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud o dan bwerau Rhan 2 ac ystyried unrhyw adroddiadau neu gyngor perthnasol sydd wedi cael eu rhoi gan y CMA.

*Diwygiadau i eithriadau Atodlen 2 y Gwasanaethau: defnyddio pŵer Rhan 2 i ychwanegu, amrywio neu ddileu o Atodlen 2*

Mae Atodlen 2 yn rhestru gwasanaethau penodol sydd wedi'u heithrio o gwmpas Deddf Marchnad Fewnol y DU, fel gwasanaethau gofal iechyd. Ar gyfer y gwasanaethau hyn sydd wedi'u heithrio, gall rheoleiddwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon benderfynu gosod gofynion gwahanol yn eu hawdurdodaethau heb roi mynediad awtomatig i ddarparwyr gwasanaeth o rannau eraill o'r DU.

Roedd y rhestr o wasanaethau a gafodd eu heithrio'n wreiddiol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn seiliedig ar y fframwaith rheoleiddio mwyaf perthnasol ar y pryd - Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009. Cafodd y rheoliadau hyn eu gwneud pan oedd y DU yn aelod o'r UE, ac felly cawsant eu dylunio gyda masnach yr UE mewn golwg, yn hytrach na masnach o fewn y DU. O ystyried hyn, ymrwymodd llywodraeth flaenorol y DU yn gyhoeddus i edrych eto ar restr Deddf Marchnad Fewnol y DU o

[15] Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro) 2022 (Saesneg yn unig)

eithriadau ar gyfer gwasanaethau. Ym mis Chwefror 2021, ymgynghorodd llywodraeth flaenorol y DU yn gyhoeddus ynghylch a oedd eithriadau gwreiddiol Deddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfer gwasanaethau yn addas i'r diben.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i'r atodlenni eithrio gwasanaethau:

- egluro cwmpas yr eithriadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2
- ychwanegu eithriadau newydd o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol at Ran 1 o Atodlen 2, ar gyfer nwy, trydan, dŵr a gwastraff; gwasanaethau dyfarnu cymwysterau a rhwydweithiau gwres
- dileu'r eithriadau presennol ar gyfer gwasanaethau ariannol, gwasanaethau post, gwasanaethau cyfathrebu electronig, gwasanaethau asiantaethau gwaith dros dro, a gwasanaethau archwilwyr statudol o'r Rhannau perthnasol o Atodlen 2

Nid yw'r Adran Busnes a Masnach wedi derbyn unrhyw sylwadau am y newidiadau mewn eithriadau ar gyfer gwasanaethau ers i'r pŵer i wneud y newidiadau hyn gael ei arfer. Mae hyn yn awgrymu bod yr eithriadau hyn yn gweithio'n dda, ar gyfer rheoleiddwyr ac ar gyfer pobl a busnesau.

Adolygiad Rhan 4: gofynion statudol

Rhaid i'r adolygiad sy'n ofynnol o dan Ran 4 ystyried priodoldeb y trefniadau sy'n ymwneud â defnyddio grwpiau gorchwyl OIM er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau a roddir i'r CMA o dan Ran 4 yn cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Mae crynodeb o brif swyddogaethau'r CMA o dan Ran 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 wedi'i nodi yn Nhabl 1[16]:

Tabl 1: prif swyddogaethau'r CMA o dan Ran 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020

| Darpariaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| Adran 31(1) i 31 (3) | **Amcan y CMA wrth gyflawni ei swyddogaethau:**<br>- cefnogi, drwy gymhwyso arbenigedd economaidd a thechnegol arall, weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y Deyrnas Unedig (gan gyfeirio'n benodol at ddibenion Rhannau 1, 2 a 3)<br>- mae'r amcan hwn yn cynnwys, yn benodol, cefnogi gweithrediad y farchnad fewnol er budd pob rhan o'r DU ac er budd |

[16] Mae'r swyddogaethau yn Rhan 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn cael eu rhoi i'r CMA. Fodd bynnag, mae adran 32(1) yn caniatáu i'r CMA awdurdodi "grŵp gorchwyl Swyddfa'r Farchnad Fewnol" a gyfansoddwyd o dan Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013, i wneud unrhyw beth y mae'n ofynnol i'r CMA ei wneud neu y mae wedi'i awdurdodi i'w wneud o dan Ran 4.

| | |
|---|---|
| | defnyddwyr nwyddau a gwasanaethau, a dosbarthiadau eraill o bobl sydd â buddiant yn y ffordd mae'n gweithredu. |
| Adran 31(6) | **Swyddogaeth gyffredinol:**<br>- caiff y CMA roi gwybodaeth neu gyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU |
| Adran 33 | **Monitro ac adrodd ar weithrediad y farchnad fewnol**<br>- caiff y CMA **gynnal adolygiadau** ar unrhyw fater y mae'n ei ystyried yn berthnasol i asesu neu hyrwyddo gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol a darpariaethau Rhannau 1-3 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Gall y CMA dderbyn ac ystyried cynigion ar gyfer cynnal yr adolygiadau hyn a gall baratoi a chyhoeddi adroddiad ar yr adolygiadau hyn. (Is-adrannau (1) i (3).)<br>- rhaid i'r CMA **baratoi adroddiadau blynyddol** ar weithrediad y farchnad fewnol a datblygiadau o ran effeithiolrwydd gweithrediad y farchnad fewnol. (Gweler, yn benodol, is-adrannau (5) ac (8).)<br>- rhaid i'r CMA **baratoi adroddiadau bob 5 mlynedd** sy'n ymdrin â materion penodol, gan gynnwys effeithiolrwydd gweithredu Rhannau 1 i 3 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU a'r rhyngweithio rhwng gweithrediad y Rhannau hynny a chytundebau fframwaith cyffredin. Rhaid cyflwyno'r adroddiadau blynyddol a phob 5 mlynedd gerbron Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. (Gweler, yn benodol, is-adrannau (6) ac (8).) |
| Adran 34 | **Cyngor ar ddarpariaethau rheoleiddiol arfaethedig ar gais**<br>- yn ddibynnol ar fodloni amodau penodol a gofynion eraill yn adran 34, caiff y CMA, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol (sy'n golygu'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban neu un o Adrannau Gogledd Iwerddon) roi cyngor neu ddarparu adroddiad i'r awdurdod hwnnw mewn perthynas â darpariaeth reoleiddiol arfaethedig. Gall y cyngor a roddir neu'r adroddiad a baratowyd ystyried, ymysg pethau eraill, effeithiau economaidd posibl darpariaeth reoleiddiol arfaethedig ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol. |
| Adran 35 | **Darparu adroddiad ar gais ar ôl pasio neu gyflwyno darpariaeth reoleiddiol**<br>- yn amodol ar fodloni gofynion penodol yn adran 35, caiff y CMA, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol (gweler uchod) ddarparu adroddiad i'r awdurdod hwnnw mewn perthynas â'r effaith ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol darpariaeth reoleiddiol sydd wedi'i phasio neu ei chyflwyno |
| Adran 36 | **Adroddiad ar gais am ddarpariaeth yr ystyrir ei bod yn cael effeithiau andwyol**<br>- yn amodol ar fodloni gofynion adran 36, caiff y CMA, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol (gweler uchod), ddarparu adroddiad i'r awdurdod ar effaith economaidd darpariaeth reoleiddiol sydd wedi'i phasio neu wedi'i chyflwyno pan fo'r |

| | |
|---|---|
| | awdurdod sy'n gwneud y cais o'r farn bod gweithrediad y ddarpariaeth reoleiddiol yn niweidiol, neu y gallai fod yn niweidiol, i weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y Deyrnas Unedig |
| Adran 39 | **Cyngor a gwybodaeth gyffredinol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r CMA**<br>- rhaid i'r CMA baratoi a chyhoeddi cyngor a gwybodaeth gyffredinol ynghylch sut mae'n disgwyl mynd ati i arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 33 i 36 |
| Adrannau 41 i 43 | **Pwerau casglu gwybodaeth**<br>- Mae gan y CMA bwerau i gasglu gwybodaeth mewn perthynas ag arfer rhai o'i swyddogaethau, gan gynnwys o dan adrannau 33, 34, 35 a 36 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Pwerau i orfodi'r darpariaethau hyn yw'r rhain. |

Rhaid i'r adolygiad, ymysg pethau eraill, asesu'r ffordd y mae swyddogaethau Rhan 4 wedi cael eu cyflawni gan y CMA drwy grwpiau gorchwyl OIM ac unrhyw fanteision neu anfanteision parhau â'r trefniadau hyn o gymharu â ffyrdd eraill posibl o ddarparu ar gyfer cyflawni swyddogaethau Rhan 4 (gan gynnwys trefniadau posibl nad ydynt yn ymwneud â'r CMA).

Mae'r CMA, o dan adran 39, wedi cyhoeddi canllawiau ar weithredu ei swyddogaethau yn Neddf y Farchnad Fewnol yn y DU (Saesneg yn unig).

Ers penodi Panel OIM ym mis Tachwedd 2023, mae'r OIM wedi ystyried effaith gwahaniaethau polisi ac eithriadau sy'n ymwneud â rheoliadau plastigau untro. Mae'r OIM hefyd wedi rhoi cyngor ffurfiol ar waharddiad arfaethedig ar werthu mawn garddwriaethol yn Lloegr ac mae wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau eraill, gan gynnwys canfyddiadau ymchwil ansoddol gyda busnesau ar fasnach o fewn y DU a map strategaeth data i wella data masnach o fewn y DU[17].

Un o fanteision parhau â'r ffordd y mae'r swyddogaethau hyn wedi cael eu creu yw bod y model yn uchel iawn ei barch ymhlith pedair llywodraeth y DU am ei ddidueddrwydd ac am ansawdd ei waith.

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gorff cyhoeddus, ac felly mae ei waith (gan gynnwys gwaith yr OIM) yn cael ei ariannu gan y pwrs cyhoeddus. Er bod modelau amgen ar gyfer ariannu gwaith yr OIM, fel buddsoddiad preifat, gallai'r rheini effeithio ar allu'r corff i gynnal didueddrwydd o'r fath sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr.

[17] Mae rhagor o fanylion am y gwaith hwn ar gael yn niweddariad map ffordd strategaeth data'r OIM.